# Adroddiad Pwyllgor Ardal Dwyfor

**Maes** : **Gwasanaeth Llyfrgell**

**Aelod Cabinet : Cynghorydd Ioan Thomas**

**Swyddog Cyswllt** : **Hywel James, Prif Lyfrgellydd.**

**Rhif Cyswllt** :**01286 679 463**

**Adran** : **Economi a Chymuned**

---

**Teitl yr Eitem** : Dyfodol y Gwasanaeth Llyfrgell yng Ngwynedd.

---

**Pwrpas Cyflwyno'r Eitem :**

1. Adrodd ar Adolygiad y Gwasanaeth Llyfrgell i aelodau'r Fforwm.
2. Codi Ymwybyddiaeth aelodau'r Fforwm o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Ddyfodol y Gwasanaeth Llyfrgell.

---

## 1. Adolygiad y Gwasanaeth Llyfrgell (2013)

1.1 Mae'r Adran Economi a Chymuned, o dan arweiniad Panel Ymgynghorol o aelodau etholedig, wedi ymgymryd ag adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgell yng Ngwynedd. Cwblhawyd yr Adolygiad yn ystod 2012-13.

1.2 Prif ganfyddiadau'r adolygiad oedd:-

- Bod tueddiadau defnydd o'r gwasanaeth ar gynnydd gyda thueddiad lleihad defnydd yn ambell lyfrgell yn unig;
- Bod perfformiad Gwynedd yn erbyn 'Safonau Llyfrgelloedd Cenedlaethol' yn uwch na'r cyfartaledd;
- Bod lefel boddhad defnyddwyr gyda'r gwasanaeth yn uchel;
- Bod y Gwasanaeth Llyfrgell yn bwysig i drigolion ond fod ymweliadau yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol;
- Bod ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth craidd yn uchel ond fod angen mwy o hyrwyddo gan dynnu sylw at y cynnig 'digidol' sydd ar gael;
- Bod angen cyfeiriad strategol newydd i'r Gwasanaeth gan ganolbwyntio ar bedwar maes gwasanaeth allweddol sef Digidol, Iechyd a Lles, Darllen a Gwybodaeth;
- Bod y dull darparu presennol yn anghynaladwy i'r dyfodol.

1.3 Ar gwblhau'r Adolygiad penderfynodd y Panel y dylai'r Gwasanaeth Llyfrgell

- Mabwysiadu cyfeiriad strategol newydd
- Cytuno i'r egwyddor o newid i fodel darpariaeth sy'n gyfuniad o Brif Llyfrgelloedd a Mynediad Cymunedol i'r Gwasanaeth.
- Cwblhau Astudiaeth Opsiynau ar gyfer adnabod Modelau Darparu newydd.

1.4 Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell bellach wedi drafftio strategaeth ar gyfer y dyfodol a cwblhau astudiaeth opsiynau ar gyfer adnabod modelau darparu newydd i wireddu'r strategaeth honno.

1.5 Mae'r Gwasanaeth wedi cychwyn ar broses o ymgynghori cyhoeddus ar y Cyfeiriad Strategol a'r Model Darparu newydd drwy "Ymgynghoriad Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd - Mwy na Llyfrau".

## 2. Ymgynghoriad Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd - Mwy na Llyfrau 2015.

2.1 Mae'r Cyngor yn wynebu cyfnod heriol yn ariannol, ac yn ceisio canfod ffyrdd gwahanol o ddarparu gwasanaethau i drigolion y sir. Er fod y Gwasanaeth Llyfrgell yn wasanaeth statudol mae dal disgwyl i'r gwasanaeth ddarparu oddi fewn i'r gyllideb sydd ar gael.

2.2 Bydd disgwyl i'r Gwasanaeth Llyfrgell ddarparu gwasanaeth gyda gostyngiad o oleiaf 25% yn ei chyllideb erbyn 2017-18; ynghyd ac ysgwyddo gostyngiad ariannol pellach yn sgil penderfyniad ynghylch toriadau yn yr un cyfnod.

2.3 Yn y cyd-destun heriol hwn mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn ceisio barn trigolion, defnyddwyr, cymunedau a phartneriaid ar ddyfodol y gwasanaeth.

2.4 Mae'r gwasanaeth wedi cwblhau asesiad effaith cydraddoldeb cychwynnol ar yr hyn a gynigir yn "mwy na Llyfrau". Yn sgil hynny rydym wedi cynnal sesiynau ymgynghori gyda grwpiau penodol o'r gymdeithas sy'n adlewyrchu'r grwpiau sy'n debygol o gael eu heffeithio.

2.5 Rydym hefyd yn cynnal Sesiynau Galw Heibio ym mhob un o'r llyfrgelloedd presennol i gasglu barn cymunedau gwahanol; ynghyd ag holiadur ar-lein a/neu holiadur papur.

2.6 Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn dod i ben ar Orffennaf 17eg.

2.7 Gellir cael mynediad i holl ddogfennau'r ymgynghoriad drwy wefan y Cyngor (https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Dweud-eich-dweud/Ymgynghoriad-ar-y-Gwasanaeth-Llyfrgell.aspx ), neu yn unrhyw un o'r Llyfrgelloedd (adeiladu a teithiol).

## 3. Camau Nesaf

Caiff canfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ei ddefnyddio er mwyn cwblhau yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb; ac er mwyn llunio argymhellion i'w cyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad ar y cyfeiriad strategol a'r dull darparu i'r dyfodol. Rhagwelir cyflwyno adroddiad i'r Cabinet erbyn diwedd 2015.